

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Beddgelert yw £4600

Diben y Grant Amddifadedd Disgyblion yw gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (hPYD). Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at welliannau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Fel ysgol rydym am ddysgu o'r arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt trwy:

1. gynllunio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig, ac sy'n nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan yr ymyriad, gan fonitro cynnydd disgyblion yn gyson a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.
2. integreiddio cynlluniau ar gyfer defnyddio'r GAD i'n Cynllun Datblygu Ysgol, gan selio arferion ar dystiolaeth dda a'u cynnwys fel rhan o strategaeth ysgol gyfan.
3. gydbwyso ymyriadau ysgol gyfan ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael budd fel unigolyn a bod yr ysgol gyfan yn meithrin ei gallu i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial llawn.

Yn 2016-17 rhoddwyd i Ysgol **Beddgelert** ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £4600

Yn Ysgol **Beddgelert** mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol **Gwynedd** a GwE, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- Canran uchel; o'r grant yn mynd tuag at gyflogi cymhorthydd sydd yn tynnu grwpiau targed allan allan o'r dosbarth i sicrhau datblygiad mewn Llythrennedd a Rhifedd. Ymyrraeth wedi dangos llwyddiant ers dros dwy flynedd bellach. **Plant PYD yn ddisgyblion abl – felly yn elwa o'r GAD trwy cael sylw'r athrawes CS a CA2 tra bod unigolion allan gyda'r cymorthdd. Disgyblion PYD yn cael cymorth er mwyn mynd ar dripiâu ysgol, e.e. tripiâu Haf (Gelli Gyffwrdd), (gostyniad i fynd i Lanllyn). Talu aelodau yr Urdd.**

- Hyfforddi Staff ar gyfer datblygu Rhifedd ar draws yr ysgol
- Hyfforddi arweinwyr pwnc

Nid yw'n briodol i'r ysgol gyhoeddi ei chynllun manwl oherwydd y perygl y gellid adnabod unigolion.

GGA: 6,124

4322 at gymhorthydd – tynnu plant allan ond hefyd yn gweithio yn CS.

Gweddill: hyfforddiant/cyfnod o fonitro/ymweliadau ysgolion.

